# Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
## ANT 20 - TREFIN













### Lleoliad, Cyd-destun a Nodweddion Ffisegol
Dyma ANT arfordirol, llinol, fawr sy'n rhedeg tua'r de o fryn caregog amlwg Garn Fawr i'r de orllewin, i ben dwyreiniol bryniau Carn Llidi, i fyny at Garn Penberi ond heb ei chynnwys. Mae'r clogwyni caregog bron yn barhaus, a hwnt ac yma mae yna gilfachau a childraethau cysgodol fel Abereiddi, Porthgain ac Abercastell. Mae hanes hir o chwarelu ar hyd yr arfordir hwn ac mae'n dylanwadu ar leoliad a ffurf adeiledig y pentref arfordirol.

### Nodweddion Gweledol a Synhwyraidd
Ar y darn hwn o arfordir ceir cyfres o glogwyni danheddus tal a llethrau serth, gydag ambell frigiad caregog danheddog, sy'n cyferbynnu gyda'r cilfachau mwy cysgodol rhyngddynt. O gopaon y clogwyni ceir golygfeydd estynedig i'r gogledd a'r de ar hyd yr arfordir. Mae'r gefnfro'n dirwedd amaethyddol, braidd yn donnog, o gaeau canolig, gyda pherthynas weledol agos gyda'r arfordir cyfagos. Hwnt ac yma ar hyd yr ardal mae yna ffermydd gwasgarog ac ambell bentrefan a phentref bach. Mae yna ardaloedd gwasgaredig o glystyrau coetir ac eangderau o goetir a phrysg.

### Nodweddion y Llystyfiant a'r Cynefinoedd
Cynefinoedd yn cynnwys ffeniau, gwelyau cyrs, gweundir isel, clogwyni morol, traethau caregog a thywodlyd. Rhywogaethau pwysig yn cynnwys hebog tramor, brain coesgoch, morloi llwyd, gwiber, madfallod, dyfrgwn a

**Nodiant y Map:**

| | |
|---|---|
| (llinell felen/goch) | Ffin y Parc Cenedlaethol |
| (llinell ddu) | Ffin yr ANT |
| (llinell doredig ddu ar felyn) | Ffin yr ANT wedi'i diffinio gan Ffin y Parc Cenedlaethol |

### Nodweddion Daearegol
Yn y gogledd, mae yna arwyneb arfordirol sydd ar oleddf ysgafn ac sydd wedi datblygu i'r gogledd o gribyn Croesgoch-Mathry. Mae'n codi i tua 90m UDO tua'r dwyrain ond yn cynnwys llwyfan tua 60m yn ardal Abercastell, sy'n cael ei dorri gan ddyffryn Abercastell. Dominyddir yr ardal ddeheuol gan gribyn hir, isel gyda brigau crwn a chyfeiriadaeth GorDeGor-DwGogDw. Mae'n codi i tua 130m UDO, yn disgyn i'r gogledd tuag at lwyfan arfordirol a hefyd i'r de, tuag at fasn Comin Tretio, sydd wedi'i lenwi gan ddrifft. Mae'n cynnwys bryncyn creigiog nodedig Carn Penberi. Dominyddir daeareg y creigwely gan lechi Ordoficaidd a nodwedd o'r arfordir yw craig laid Ordoficaidd.

### Nodweddion Hanesyddol a Diwylliannol
Mae'r rhan o'r ANT hon sydd yn y man mwyaf de orllewinol yn gorwedd o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru Penrhyn Tyddewi ac Ynys Dewi . Mae yna henebion o gynhanes, beddrod siambr, crugiau crwn o'r Oes Efydd, bryngaerau o'r Oes Haearn, henebion Cristnogol cynnar a safleoedd archeolegol diwydiannol, pob un o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae yma fryngaer Rhufeinig-Brydeinig/Oes Haearn mewn sawl man, a'r harbwr diwydiannol ym Mhorthgain. Mae mewn ardal sydd dan bwysedd sylweddol gan berchnogion ail gartrefi, fel rhai ardaloedd eraill o'r Parc Cenedlaethol. Mae perchnogaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn cynnwys dwy ardal ger Sant Nicolas, eraill ger Porthgain ac Abereiddi. Mae ardal fwyaf gogledd ddwyreiniol yr ANT hon yn cynnwys adran fach o Dirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru Pen Caer: Garn Fawr a Phen Strwmbwl.

## Gwerthusiad ac Argymhellion

| ANT Rhif | Ardal Nodwedd | Meysydd Agwedd Gweledol a Synhwyraidd | Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddaearegol | Meysydd Agwedd Cynefinoedd y Dirwedd | Meysydd Agwedd y Dirwedd Hanesyddol | Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddiwylliannol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 20 | Trefin | 24 - Uchel<br>25 - Eithriadol<br>91 - Canolig | 90 - Eithriadol<br>105 - Eithriadol<br>106 - Canolig<br>107 - Uchel<br>111 - Canolig | 385 - Uchel<br>405- Canolig<br>409 - Canolig<br>440 - Uchel<br>672 - Canolig<br>740 - Canolig<br>804 - Uchel<br>827 - Canolig<br>873 - Uchel<br>995 - Eithriadol<br>996 - Canolig | 46059-Uchel<br>46060-Uchel<br>46066-Eithriadol<br>46086-Eithriadol<br>42279-Eithriadol | 004 - Eithriadol<br>512 -Eithriadol |

**Termau Gwerthuso Agwedd LANDMAP:**

| | |
|---|---|
| Eithriadol: | O Bwysigrwydd Cenedlaethol neu Ryngwladol |
| Uchel: | O Bwysigrwydd Cenedlaethol neu Ryngwladol |
| Canolig: | O Bwysigrwydd Lleol |
| Isel: | Ychydig o Bwysigrwydd neu Heb Fod yn Bwysig o Gwbl |

*(Mae'r cyfeirnodau yn y tabl yn cyfeirio at y Meysydd Agwedd penodol a nodwyd)*

### Nodweddion Arbennig (Nodweddion Pwysig y Dirwedd)

- Tirwedd arfordirol agored ac amrywiol gyda golygfeydd helaeth ar hyd y morlin
- Mae yna gymeriad setledig hirsefydlog cryf, sy'n deillio o aneddiadau graddfa fach a ffermydd gwasgaredig o fewn tirwedd tir fferm donnog sy'n fugeiliol yn bennaf. Mae yna bensaernïaeth gynhenid leol sy'n nodedig iawn, gydag adeiladau o gerrig a thoeon o lechi / wedi'u growtio
- Diffiniwyd patrwm y caeau yn dda ac mae'n rhoi gwead cyfoethog i'r dirwedd agored, ble mae ardaloedd bach o goetir a phrysg yn rhannu'r dirwedd . Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y banciau perthi a'r waliau cerrig sych sy'n creu ffiniau cae traddodiadol, ac mae ansawdd eu cyflwr o ganlyniad i arferion rheoli yn elfen sy'n diffinio'r dirwedd
- Mae yna lond lle o gynefinoedd yma sy'n bwysig yn genedlaethol, yn enwedig cynefinoedd gweundir isel a chlogwyni arfordirol. Aseswyd y clogwyni ar hyd mwyafrif arfordir yr ANT hon fel rhai sydd o werth eithriadol, a chefnogir hyn gan ddynodiad dros 50% o'r morlin fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardal Gadwraeth Arbennig neu Ardal Gwarchodaeth Arbennig
- Mae'r cyfoeth o nodweddion hanesyddol ac archeolegol sydd yma, o gynhanes i'r gorffennol diwydiannol diweddar, yn cyfrannu at werth hanesyddol eithriadol llawer o'r dirwedd hon, peth ohoni o bwysigrwydd cenedlaethol. Ar ben mwyaf gogleddol yr ANT hon, mae yna ran fach o Dirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru Pen Caer: Garn Fawr a Phen Strwmbwl. Mae'r pentir mawr a nodedig hwn yn ffurfio tirwedd sy'n gryfder o elfennau o barhad a goroesiad hanesyddol o'r cyfnod cynhanes ymlaen.
- Mae'r olion diwydiannol ar raddfa tirwedd gyfan, ac yn cynnwys y 'lagwn glas' eiconig yn Abereiddi a'r hopranau ym Mhorthgain. Mae'r darn o arfordir rhwng Abereiddi a Phorthgain yn daith trwy hanes diwydiannol, gyda chwarelau cerrig, bythynnod y gweithwyr, tŷ'r rheolwr, tramffyrdd a glanfeydd, sydd oll yn cyfrannu at stori'r dirwedd
- Mae yna Ardaloedd Cadwraeth yn Nhrefin (dynodwyd Awst 1997), sy'n cynnwys safle o bwysigrwydd hanesyddol palas yr esgob, ac ym Mhorthgain (dynodwyd Tachwedd 1997) i gydnabod treftadaeth ddiwydiannol graddfa fawr - yn enwedig yr harbwr, odynau calch a strwythurau cysylltiedig - y pentref harbwr a physgota bach hwn. Roedd y rhain, a strwythurau cynharach â chysylltiad at chwarelu am lechi, gan gynnwys yr odyn galch, yr harbwr a Pilots House, yn rhoi cymeriad hanesyddol unigryw i Borthgain.

### Tueddiadau Dirnadwy yn y Dirwedd

- Mae'n ymddangos bod y dirwedd sy'n cael ei ffermio mewn cyflwr cyson o ran rheolaeth a chyflwr. Mae'r math o reolaeth, a'i ddwyster, yn amrywio ar draws yr ardal ond ystyrir ei fod yn addas, i raddau helaeth, i natur amaethyddol yr ardal
- Mae'r broses o reoli ffiniau cae yn amrywio'n lleol.

### Canllawiau Rheoli

- Gwarchod golygfeydd helaeth ar hyd y morlin a natur ddigyffro'r clogwyni a'r cilfachau
- Cadw a gwarchod clystyrau ac eangderau o goetir fel elfennau gweledol pwysig i rannu'r dirwedd; hybu'r broses o ailblannu gyda rhywogaethau llydanddail
- Cynyddu ardaloedd o brysg eithin a phorfa arfordirol heb ei reoli, ond peidio â chaniatáu i redyn lechfeddiannu gweundir isel a glaswelltiroedd arfordirol
- Annog perchnogion tir i gymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd, gyda phwyslais penodol ar hybu adferiad neu ailsefydliad waliau cerrig a pherthi ffin cae traddodiadol mewn lleoliadau gweledol pwysig
- Sicrhau bod lefelau pori yn ddelfrydol er mwyn i frith y gors a mathau o degeirianau ffynnu
- Peidio â gadael i dir sydd wedi'i wella'n amaethyddol ymestyn i ardaloedd o weundir isel a glaswelltiroedd arfordirol
- Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad oes unrhyw nodweddion daearegol na geomorffolegol yn cael eu colli na'u difrodi
- Sicrhau bod olion diwydiannol yn weledol ac yn ddealladwy
- Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad yw henebion ac olion yn cael eu colli na'u difrodi.